CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 2il o FAWRTH 2021 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, D.L.Jones, K.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen, B.Owen, J.W.Parry, K.Richards, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

---

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr E.R.Hughes, W.R.Owen

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Gŵyl Dewi

Oherwydd Covid-19, penderfynwyd peidio â chynnal yr Orymdaith Gŵyl Dewi eleni, a gwneud pethau ychydig bach yn wahanol. Cynhaliwyd cystadleuaeth ysgrifennu cerddi i ysgolion, ar y thema "Caernarfon Heddiw". Cafwyd degau o gystadleuwyr o safon uchel. Rhoddwyd linciau ar ein safle Facebook, efo'r beirdd buddugol yn darllen eu gwaith.

Llongyfarchodd y Cadeirydd bawb a gymerodd ran, a diolchodd i'r disgyblion, rhieni, ysgolion ac i Rhys Iorwerth am feirniadu.

3. **Datgan Buddiant Personol**

Y Cynghorydd I.C.Thomas – eitem 5(ii) – cais 5(viii)
Y Cynghorydd C.Williams – eitem 5(ii) – cais 5(viii)
Y Cynghorydd W.Tudor Owen – eitem 5(ii) – cais 5(xiv)
Y Cynghorydd J.W.Parry – eitem 5(ii) – cais 5(xiv)

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc**)

Dim.

5. **Cofnodion**

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 2il o Chwefror 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

ii. Pwyllgor Cyllid – 9fed o Chwefror 2021

Yn codi: Eitem 8 – Mynwent Llanbeblig

Nododd y Cynghorydd K.Jones gan eu bod wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grant gan yr Heddlu, nid oedd ganddynt hawl i ymgeisio am grant arall hyd nes bod arian y grant wedi ei wario.

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir, a derbyn adroddiad ar ffigyrau Gŵyl Arall gan y Clerc yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn (unfrydol).

iii. Pwyllgor Adloniant – 22ain o Chwefror 2021

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

6. **Cyfrifon**

Penderfynwyd (unfrydol):
(1) Derbyn a'u talu.
(2) Gofyn i'r Clerc gynnal trafodaethau o ran y taliad cynnal tiroedd gan ei fod yn ymddangos yn uchel, a hefyd o ran cyflwr ochr chwith y Fynwent o'i gymharu â'r ochr dde.

7. **Cysoni Cyfrifon**

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth, a gofyn i'r Clerc e-bostio unrhyw beth oedd dal i sefyll allan i sylw'r Cyfrifydd.

8. Maerolaeth 2021/22

Cyflwynwyd ymateb i unrhyw drafodaethau rhwng y cynigydd, eilydd a'r Maer Etholedig, y Cynghorydd Maria Sarnacki. Cafwyd adroddiad gan y Cynghorwyr Ann Hopcyn (Cynigydd) a J.W.Parry (Eilydd) bod y trafodaethau wedi bod yn llwyddiannus, a'u bod yn falch o nodi bod y Cynghorydd Maria Sarnacki yn derbyn y swydd.

Penderfynwyd llongyfarch y Cynghorydd Maria Sarnacki (unfrydol).

9. Maerolaeth 2021/22

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2021/22.

Cynigiodd y Cynghorydd I.C.Thomas y Cynghorydd Cai Larsen fel Dirprwy Faer. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd K.Richards.

Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Cai Larsen i fod yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2020 – 2021 (unfrydol).

10. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ar Adeilad yr Institiwt.

Nodwyd fod grŵp bach am ddod at ei gilydd i drafod anghenion yr adeilad ar ddydd Gwener, y 5ed o Fawrth. Roedd y Grŵp yn cynnwys y Maer, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, y Clerc a'r Pensaer. Roedd llawer o bethau i'w trafod, yn cynnwys bod dŵr yn dod i mewn drwy do'r Siambr.

Bydd y Clerc yn cyflwyno adroddiad llawn i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod nesaf.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a rhoi'r hawl dirprwyedig i'r Clerc weithredu o ran y to pe byddai angen (unfrydol).

11. Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru

Cyflwynwyd gwybodaeth am ymgynghoriad sydd yn cau ar yr 22ain o Ebrill. Gofynnir am sylwadau Cynghorau Cymuned a Thref.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc lunio sylwadau ar ran y Cyngor, ar y cyd efo'r Cynghorydd D.L.Jones (unfrydol).

12. Gwasanaeth Ieuenctid

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc ar y Gwasanaeth Ieuenctid.

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost gan Glerc Cyngor Tref Ffestiniog yn holi am ein trefniadau o ran y Clwb Ieuenctid o fis Medi ymlaen.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Gwahodd cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ieuenctid i gyfarfod o'r Cyngor Llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn edrych ar y ffordd ymlaen a cheisio cynyddu niferoedd oedd yn mynychu yn y dref.

(2) Gofyn am ail-drefnu'r cyfarfod (a gafodd ei ohirio yn sgil Covid-19) rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Cynghorau Cymuned / Tref sy'n cyfrannu'n ariannol.

13. Sgriniau CGI

Cyflwynwyd gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd am y bwriadau o ran yr uchod.

Nodwyd:

(1) Yn dilyn cais llwyddiannus bod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i gael cyllid grant ar gyfer gwaith gosod a gweithredu system 'Real Time Passenger Information' (RTPI) mewn lleoliadau allweddol yng Ngwynedd, a gellir dangos pethau fel amserlen bysiau a gwybodaeth i dwristiaid arno.
(2) Y bydd y gwaith paratoi ar gyfer y Sgrin CGI ger y Lloches Bws newydd ar y A4086, Stryd Pen Llyn, gyferbyn a 'Argos' ac un arall ger y lloches bws sydd tu allan i Asda, Caernarfon, yn cael ei gario allan ym mis Mawrth / Ebrill 2021.
(3) Fel rhan o'r Cynllun yma, maent am uwchraddio dwy loches bws yng Nghaernarfon, fel eu bod yn gallu gosod 'RTPI' gyda sgrin o 28 modfedd i mewn yn y Llochesi rhain.
(4) Y lleoliadau yw tu allan i Tesco wrth i chi deithio i'r Gogledd tuag at gyfeiriad Bangor, ac yr un arall tu allan i 'Morrisons', eto yn teithio i'r Gogledd. Llochesi caeedig fyddai'r rhain, gyda gwaith 'Brandio' Traws Cymru arnynt.

Nododd y Clerc:
(1) Bod y Cyngor Tref newydd fuddsoddi mewn uwchraddio'r lloches ger Morrisons, ond nid oedd ymgynghoriad ar gynlluniau Cyngor Gwynedd wedi cymryd lle.
(2) Bodd y Cyngor am roi'r cynlluniau ar y lloches ger Tesco "ar hold" am nawr.
(3) Ei fod wedi cael ar ddeall y byddai'r llochesi newydd yn eiddo i'r Cyngor Tref.
(4) Bod cynlluniau gan Gyngor Gwynedd i uwchraddio'r lloches yn Waterloo Port maes o law.
(5) Bodd Cyngor Gwynedd wedi cynnig symud llochesi bysus e.e. yr un presennol wrth Morrisons i leoliadau eraill yn y dref, a bod angen edrych os oedd hyn yn ymarferol ac, o bosib, ystyried lleoliadau addas.
(6) Ei fod wedi trefnu cyfarfod pellach gyda Chyngor Gwynedd yn nes ymlaen yn yr wythnos.

Penderfynwyd (unfrydol):
(1) Nodi'r wybodaeth.
(2) Gofyn i'r Clerc wirio efo Cyngor Gwynedd pwy fyddai'n gorfod talu pe byddai'i llochesi bysus newydd yn dod yn eiddo i'r Cyngor Tref, a'u bod yn cael eu fandaleiddio.
(3) Gofyn i'r Clerc wirio efo Cyngor Gwynedd os fyddai modd cael camera ar y llochesi i adnabod unrhyw rai a allasai falu'r lloches.

14. Meysydd Parcio

Nodwyd:
(a) Bod y Cyngor Tref wedi penderfynu bod yn rhan o'r cynllun 10% y llynedd (cynyddu a chadw 10% o'r incwm talu ac arddangos parcio i fynd tuag at brosiectau cymunedol).
(b) Yn sgil Cofid 19, cafodd y cynlluniau eu gohirio.
(c) Cafodd strwythur ffioedd parcio newydd ei gymeradwyo gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn ddiweddar a, cyn mynd ymlaen gyda'r trefniadau,

roedd Cyngor Gwynedd angen penderfyniad ffurfiol os yw'r Cyngor Tref yn awyddus i ymuno â'r cynllun y flwyddyn hon, sef o Ebrill 2021 ymlaen.

Penderfynwyd, yn sgîl effaith Covid-19, i beidio â chynyddu a chadw 10% o'r incwm talu ac arddangos parcio am eleni, ac ail-ymweld â'r sefyllfa'r flwyddyn nesaf (unfrydol).

15. Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru

Cyflwynwyd, er gwybodaeth gofnodion drafft o'r cyfarfod o Gylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 18fed o Dachwedd, 2020.

Penderfynwyd nodi cynnwys y cofnodion (unfrydol).

16. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

(a) Er mwyn ffurfioli trefniadau, cyflwynwyd tabl allan o Adroddiad Blynyddol – Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021 i'w fabwysiadu (tudalen 45 – 46).

Penderfynwyd mabwysiadu'r tabl, gan gymeradwyo'r taliadau isod:

- **Sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau**
- **Cymeradwyo talu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.**
- **Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, rhoi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau.**
- **Talu iawndal am golled ariannol i bob un o'r haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy.**
- **Cymeradwyo taliad i'r Maer neu gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500.**
- **Cymeradwyo taliad i'r Dirprwy Faer neu is-gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500.**

(b) Cyflwynwyd gohebiaeth o ran Adolygu Fframwaith Taliadau Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref.

Roedd yr ohebiaeth yn nodi:

(1) Bod y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu ei bod yn adeg briodol i gynnal adolygiad o'r fframwaith ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth cynghorau cymuned a thref.
(2) Mai'r bwriad oedd cwblhau'r adolygiad erbyn dechrau'r hydref, fel y gellir cynnwys unrhyw newidiadau yn Adroddiad Blynyddol 2022/23.

(3) Byddant yn dod i rym yn dilyn yr etholiadau i gynghorau newydd ym mis Mai 2022.
(4) Eu bod yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau i gymryd rhan, er enghraifft ystod eang o gynghorau cymuned a thref.

Penderfynwyd datgan fod gan y Cyngor Tref ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr adolygiad.

17. Cwestiynau

(1) Gofynnodd y Cynghorydd C.Williams os oedd statws i'r negeseuon oedd pobl yn teipio o dro i'w gilydd mewn cyfarfod zoom.

Nododd y Clerc nad oedd yn gwybod ac y byddai'n edrych i mewn i hyn.

(2) Gofynnodd y Cynghorydd K.Jones os oedd yr Heddlu bellach wedi cael eu gwahodd i gyfarfod o'r Cyngor

Nododd y Clerc y byddai'n ceisio trefnu hyn at y cyfarfod nesaf.

(3) Gofynnodd y Cynghorydd K.Richards beth oedd cynlluniau CADW ar gyfer y pods ar gyfer y digartref ar safle hen Ysgol Pendalar.

Nododd y Clerc y byddai'n edrych i mewn i hyn.

18. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

[redacted]



[redacted]

(2) Gwahodd y Wasg yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.05 p.m.

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....